# ADRODDIAD YNGHYLCH Y GWRTHWYNEBIADAU

**Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin**

# Atodiad A

## Rhestr o’r gwrthwynebiadau i’r Hysbysiad Statudol

**Rhestr o’r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd**

| Rhif | Enw | Safle/Categori yr ymatebydd |
|---|---|---|
| 1. | Llinos Thomas | |
| 2. | Rhiannon Edwards | Darpar Riant |

# Atodiad B

**Crynodeb o’r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd yn dilyn cyhoeddi’r Hysbysiad Stadudol ac ymatebion yn ymwneud â’r Awdurdod Lleol**

| Rhif | Gwrthwynebiad | Ymateb |
|---|---|---|
| 1. | Mae'r ymgynghorai yn gwrthwynebu newid y categori iaith o ddwyieithog 2A i Gyfrwng Cymraeg. | Mae'r gwrthwynebiad wedi cael ei nodi. Mae'r cynnig wedi cael ei baratoi i ymateb i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i "***gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ymlaen drwy bob cyfnod allweddol hyd at y sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg."*** Er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg argymhellwyd bod y Cyngor Sir yn ***"cynllunio ar gyfer twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd"*** ac yn "***cytuno ar amserlen a chynllun i gefnogi ysgolion 2A, 2B a 3 i symud ar hyd y continwwm iaith dros gyfnod o amser ac arwain at sicrhau bod pob ysgol uwchradd arall yn symud ar hyd y continwwm iaith a chreu ethos sy'n annog parch tuag at yr iaith Gymraeg."*** |
| 2. | Mae'r ymgynghorai yn gwrthwynebu newid y categori iaith o ddwyieithog 2A i Gyfrwng Cymraeg. Nid yw'r ymgynghorai yn teimlo y byddai disgyblion Cymraeg ail iaith yn cyrraedd eu potensial llawn drwy ddysgu Mathemateg a Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fyddai marciau'r disgyblion yn | Mae'r gwrthwynebiad wedi cael ei nodi. Mae'r cynnig wedi cael ei baratoi i ymateb i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i "***gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin*** |

| | | |
|---|---|---|
| | adlewyrchu eu gwir allu ac mi fyddai hyn yn effeithio ar safon gyffredinol yr ysgol. Yn ogystal, byddai'r disgyblion sy'n dymuno astudio'r pynciau yma mewn prif ysgolion drwy gyfrwng y Saesneg o dan anfantais oherwydd eu bod wedi dysgu'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol. Mae'r ymgynghorai yn poeni y bydd y newid yma yn effeithio ar y nifer o ddisgyblion Cymraeg ail iaith sy'n gallu mynychu'r ysgol ac y bydd llai o ddisgyblion eisiau mynychu'r ysgol. Bydd rhai teuluoedd nawr yn ystyried danfon eu plant i ysgolion uwchradd eraill er mwyn i'r disgyblion gael dewis o ba iaith y maent yn dymuno dysgu drwyddo. | ***ymlaen drwy bob cyfnod allweddol hyd at y sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg."*** Er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg argymhellwyd bod y Cyngor Sir yn ***"cynllunio ar gyfer twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd"*** ac yn "***cytuno ar amserlen a chynllun i gefnogi ysgolion 2A, 2B a 3 i symud ar hyd y continwwm iaith dros gyfnod o amser ac arwain at sicrhau bod pob ysgol uwchradd arall yn symud ar hyd y continwwm iaith a chreu ethos sy'n annog parch tuag at yr iaith Gymraeg."*** Mae canlyniadau'r arholiadau mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyson uchel ac yn profi nad yw dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhwystr i'r disgyblion. Mae'r holl athrawon Gwyddoniaeth a Mathemateg bresennol yn ysgol Bro Myrddin yn hyderus bod symud tuag at addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn cynnig llawer o fanteision. Mae'r ysgol yn paratoi disgyblion i fynd i brifysgolion ym mhob rhan o'r byd ac ni ddylid ystyried bod dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn anfantais i'r disgyblion. Bwriad yr Awdurdod Lleol yw i'r holl ddisgyblion presennol aros yn yr ysgol ac y bydd darpar ddisgyblion yn y dyfodol yn parhau i fynd i'r ysgol. Os caiff y cynnig ei roi ar waith, bydd rhieni'n gallu dewis naill ai ysgol Cyfrwng Cymraeg neu Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf â defnydd sylweddol o'r Gymraeg yn ardal Caerfyrddin. |